Triniaeth Ddeintyddol ar y GIG yng Nghymru

Sut i ddod o hyd i ddeintydd y GIG

Os ydych chi am driniaeth ddeintyddol ar y GIG, rhaid i chi'n gyntaf ddarganfod pa ddeintyddion yn eich ardal sydd â chytundebau gyda'ch Bwrdd Iechyd Lleol i gynnig triniaeth ar y GIG. Fe allwch chi wedyn gysylltu â'r practis i weld a allan nhw roi apwyntiad i chi neu eich cynnwys ar restr eu cleifion.

Fe allwch wneud hyn trwy fynd i wefan Galw Iechyd Cymru (NHS Direct Wales) www.nhsdirect.wales.nhs.uk a chlicio ar Deintyddion, neu trwy ffonio Galw Iechyd Cymru - gweler o dan Cymorth ychwanegol. Os na allwch chi ddod o hyd i ddeintydd y GIG sy'n derbyn cleifion newydd gofynnwch i **Galw Iechyd Cymru** (**NHS Direct)** os oes rhestr aros yn eich ardal y gallwch roi'ch enw arni.

Nid oes rhaid i chi gofrestru gyda deintydd i gael triniaeth ar y GIG ond gall eich deintydd gadw rhestr o gleifion rheolaidd a chynnig triniaeth a gofal parhaus.

Ar y dechrau, bydd eich deintydd yn cytuno gyda chi os bydd eich triniaeth o dan y GIG, neu'n breifat, neu'n gymysgwch o'r ddau. O dan rai amgylchiadau, fe all eich deintydd derfynu cwrs o driniaeth. Gall hyn ddigwydd, er enghraifft, os nad ydych chi'n cydweithio gyda thriniaeth neu os collwch chi nifer o apwyntiadau. Lle mae trais, neu fygythiad o drais yn digwydd, gall eich deintydd atal y driniaeth ar unwaith, heb unrhyw rybudd ymlaen llaw.

Pa driniaeth allwch chi ei gael ar y GIG

Mae gennych hawl i unrhyw driniaeth sydd ei angen arnoch i gynnal iechyd deintyddol. Gall hyn gynnwys coroni dant, pontio a dannedd gosod. Bydd y deintydd yn rhoi cynllun triniaeth i chi ar ôl archwiliad os gofynnwch amdano, fydd yn dangos i chi beth sydd ei angen arnoch a beth yw'r gost. Mae yna dri thaliad safonol i gwrs triniaeth ddeintyddol ar y GIG, yn dibynnu ar y driniaeth sydd ei angen. Dylid arddangos y rhain yn ystafell aros eich deintydd. Mae rhai pethau, megis trwsio dannedd gosod, am ddim.

Mae mwy o fanylion am ffioedd deintyddol GIG ar gael mewn taflen o'r enw HC12W Ffioedd a Gwerth Talebau Optegol. Fe allwch chi ddod o hyd i hon ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn <http://wales.gov.uk>.

Gall eich deintydd gynnig gwneud rhan o'r gwaith ar eich cynllun triniaeth neu driniaeth ychwanegol, yn breifat. Sut bynnag, ni ddylent roi pwysau arnoch i gael triniaeth yn breifat sydd ar gael ar y GIG. Os yw'ch deintydd yn ceisio gwneud hyn, fe ddylech chi gwyno - gweler o dan Cwynion.

Nid yw rhai triniaethau ar gael ar y GIG a dim ond yn breifat y gellir eu cynnig, er enghraifft, llenwadau gwyn yn y dannedd cefn.

Os ydych chi wedi bod yn cael triniaeth ar y GIG ac angen dechrau triniaeth am

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

rywbeth sydd yn rhaid ei wneud yn breifat, fe ddylid rhoi ffurflen i chi ei llofnodi i ddweud eich bod yn cytuno i gychwyn ar driniaeth breifat.

Pwy sy'n gallu derbyn triniaeth ddeintyddol ar y GIG am ddim?

Fe allwch chi gael triniaeth ddeintyddol am ddim (yn cynnwys archwiliadau) os ydych chi:

- o dan 18 oed
- o dan 19 oed ac yn derbyn addysg lawn-amser
- yn feichiog
- wedi rhoi genedigaeth o fewn y deuddeg mis diwethaf
- yn derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, Lwfans Cymorth a Chyflogaeth ar sail incwm neu'r rhan gwarant credyd o Bensiwn Credyd.

Mae gennych hawl i gael archwiliadau am ddim os ydych chi o dan 25, neu'n 60 a drosodd. Hefyd, gall rhai pobol sydd ar incwm isel, yn cynnwys rhai pobol sy'n derbyn credydau treth, gael triniaeth ddeintyddol y GIG am ddim neu driniaeth am gost ostyngol.

Allwch chi newid eich deintydd?

Fe allwch fynd at ddeintydd gwahanol unrhyw bryd. Fe ddylech chi roi gwybod i'ch deintydd a chanslo'ch apwyntiadau. Os ydych chi am newid deintyddion yn ystod cwrs o driniaeth, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu'r deintydd yn gyntaf am y triniaethau gawsoch chi'n barod. Mae o hyd yn gwneud synnwyr i ddod o hyd i ddeintydd ymlaen llaw sy'n barod i orffen y cwrs o driniaeth a ddechreuwyd gan ddeintydd arall.

All eich deintydd godi tâl arnoch am golli neu ganslo apwyntiad?

Nid oes hawl gan ddeintydd i godi tâl arnoch am ganslo apwyntiad. Sut bynnag, os ydych chi'n colli neu ganslo nifer o apwyntiadau, efallai y penderfynan nhw wrthod eich trin.

Triniaeth mewn argyfwng

Mae Byrddau Iechyd Lleol yn gyfrifol am ddarparu triniaeth ddeintyddol mewn argyfwng ar ôl oriau gwaith. Fel arfer bydd rhaid i chi ffonio llinell gymorth frys yn gyntaf.
Mae yna ffî benodol am driniaeth mewn argyfwng ar ôl oriau gwaith.
Nid yw'r ddannodd, waeth pa mor ddifrifol, yn cael ei ystyried yn argyfwng deintyddol. Os hoffech chi gael cyngor ynglŷn â lleddfu poen ffoniwch Linell Gymorth Ddeintyddol Cymru Gyfan ar 0845 6010128 neu cysylltwch â'ch deintydd.

Cwynion am ddeintyddion

Os ydych chi am gwyno ynglŷn â'r gofal neu'r gwasanaeth a gynigiwyd gan ddeintydd neu bractis deintyddol y GIG fe ddylech chi gysylltu â'r practis i ddechrau, yn ysgrifenedig fyddai orau, i godi'r mater. Os nad ydych chi am ddelio â'r practis yn

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

uniongyrchol, fe allwch chi gysylltu â'r rheolwr cwynion yn eich Bwrdd Iechyd Lleol yn lle - gweler o dan Cymorth ychwanegol. Gall eich Cyngor Iechyd Cymuned lleol gynnig cyngor i chi wrth wneud cwyn - gweler o dan Cymorth ychwanegol.

Os ydych chi am gwyno am wasanaethau deintyddol preifat, fe allwch chi gysylltu â Gwasanaeth Cwynion Deintyddol. Mae wedi'i sefydlu i helpu cleifion deintyddol preifat a deintyddion proffesiynol i ddatrys cwynion. Fe allwch gysylltu â nhw trwy ffonio 08456 120540 neu trwy gwblhau ffurflen ar eu gwefan yn www.dentalcomplaints.org.uk

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf ,neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Galw Iechyd Cymru
Tel: 0845 4647
Gwefan: www.nhsdirect.wales.nhs.uk

Mae **Byrddau Iechyd Lleol** yn gyfrifol am gyflwyno gwasanaethau deintyddol yn eu hardal. Fe allwch gael manylion cyswllt am eich Bwrdd Iechyd Lleol oddi wrth Galw Iechyd Cymru.

Gall **Cynghorau Iechyd Cymuned** eich cynghori ynglŷn â chwynion am wasanaethau deintyddol ar y GIG. Fe allwch ddarganfod sut mae cysylltu â'ch Cyngor Iechyd Cymuned trwy ffonio Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru ar 0845 644 7814 neu ar-lein yn www.communityhealthcouncils.org.uk

Gall yr **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru** ymchwilio i gwynion am wasanaethau deintyddol yng Nghymru. Fe allwch chi gael manylion am y gwasanaeth hwn trwy ffonio 01656 641 150 neu ar-lein yn www.ombudsman-wales.org.uk

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Defnyddio gwasanaethau GIG yng Nghymru
- Cwynion am GIG a gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol
- Cwynion am GIG yng Nghymru
- Taliadau GIG a gwerth talebau optegol
- Sut i ddefnyddio ombwdsmon yng Nghymru

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth , enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Gymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 21 Chwefror 2011, a chaiff ei adolygu'n rheolaidd am newidiadau. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr